# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Committee Room 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 12 Hydref 2020

Amser: 13.00 - 16.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6500

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | John Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Huw Irranca-Davies AS<br>Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Caroline Jones AS |
| Tystion: | Julie James AS, Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru<br>Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi, Cynllunio a Phartneriaethau Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru<br>Jane Hutt AS, Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip<br>Alyson Francis, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Naomi Stocks (Clerc)<br>Chloe Davies (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd) |

| | |
|---|---|
| | Osian Bowyer (Ymchwilydd)<br>Hannah Johnson (Ymchwilydd)<br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Manon Huws (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1. Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

1.2. Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, nododd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

1.3. Nododd y Cadeirydd, os bydd yn gadael y cyfarfod heb rybudd am unrhyw reswm, fod y Pwyllgor wedi cytuno y bydd Dawn Bowden AS yn dod yn Gadeirydd dros dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

## 2 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol

2.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Julie James AS, y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
- Emma Williams, Cyfarwyddwr, Tai ac Adfywio, Llywodraeth Cymru
- Claire Bennett, Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi, Llywodraeth Cymru

## 3 Ymchwiliad i COVID-19 a'i effaith ar faterion sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - sesiwn dystiolaeth gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

3.1. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan:

- Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
- Alyson Francis, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Gymunedau, Llywodraeth Cymru

3.2. Yn ystod y sesiwn dystiolaeth, cytunodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i ddarparu:

- rhestr o aelodau'r grŵp cyfathrebu hygyrch;
- y dyddiad cau i'r grŵp cyllido cynaliadwy ar gyfer trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais gytuno ar y model cyllido cynaliadwy.

## 4 Papur(au) i'w nodi

### 4.1 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd pob Pwyllgor ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

4.1.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Gadeirydd pob Pwyllgor ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol.

### 4.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd mewn perthynas â Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

4.2.a. Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd at y Llywydd mewn perthynas â Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020.

### 4.3 Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru)

4.3.a. Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

### 4.4 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip mewn perthynas â’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cam-drin Domestig

4.4.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip mewn perthynas â’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cam-drin Domestig.

### 4.5 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag effaith y pandemig COVID-19

4.5.a. Nododd y Pwyllgor y llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus mewn perthynas ag effaith y pandemig COVID-19.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

5.1. Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

## 6 Ymchwiliad i COVID-19 a’i effaith ar faterion sy’n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau - trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

6.1. Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd a cytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip mewn perthynas â materion a godwyd yn ystod y sesiwn.

## 7 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Cam-drin Domestig - trafod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru

7.1. Trafododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru a chytunodd i ysgrifennu ymateb ar y cyd gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.